

## CYLCHLYTHYR

### Cronfa Datblygiadau Strategol

Dyddiad: 26 Mawrth 2015

Cyfeirnod: 14/08

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol

Ymateb Erbyn: Ar gyfer Prosiectau Strategol newydd, ymateber erbyn 27 Ebrill 2015 (atodir ffurflen gynnig ar ddiwedd y Cylchlythyr hwn)

Ar gyfer Cynadleddau 2015/16, ymateber erbyn 1 Mai 2015 (os nad ydych eisioes wedi derbyn ffurflen oddi wrth Swyddog Cangen neu Swyddog Pwnc, cysyllter â Rhian Davies)

Modiwlau Cydweithredol erbyn 31 Mawrth 2015 (fel yr uchod)

Cyswllt: Rhian Davies: [rh.davies@colegcymraeg.ac.uk](mailto:rh.davies@colegcymraeg.ac.uk)  
01267 610417

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**  
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyron/>

## Cronfa Datblygiadau Strategol 2014/15

### Cyflwyniad

1. Mae Cronfa Datblygiadau Strategol y Coleg wedi cefnogi nifer sylweddol o ddatblygiadau ers sefydlu'r Coleg yn 2011. Mae pwyslais y gronfa wedi newid dros amser a hynny o ganlyniad i sawl datblygiad arwyddocaol:

i) Datblygiad y Cynllun Staffio Academaidd

Bellach mae'r Cynllun Staffio yn cefnogi 118 o ddarlithyddiaethau unigol yn y prifysgolion ledled Cymru, ac mae nifer o ddatblygiadau a fyddai gynt wedi eu cefnogi drwy brosiectau unigol yn cael eu harwain gan ddarlithwyr cyflogedig a noddir gan y Coleg;

ii) Penodi Swyddogion Pwnc

Mae swyddogion wedi eu penodi i ddarparu cymorth a chefnogaeth benodol i ddarlithwyr ym meysydd y Gwyddorau, y Gwyddorau Cymdeithasol, a'r Celfyddydau / Dyniaethau, yn ogystal â Swyddog Cyhoeddiadau i gefnogi a hwyluso prosiectau i greu adnoddau a chyhoeddiadau yn enw'r Coleg;

iii) Prosiectau Strategol Cenedlaethol

Mae sawl prosiect strategol tymor hir yn derbyn cefnogaeth gan y Coleg e.e *Gwerddon* a'r Geiriadur Termau Addysg Uwch. (Gweler pwynt 6 am fanylion pellach ynglŷn â phrosiectau strategol y bydd y Coleg yn parhau i'w cefnogi yn 2015/16);

iv) Grantiau Bach

Mae'r Cynllun Grantiau Gach wedi datblyg'n bwrpasol ac mae'n cynnig ffynhonnell gyllid addas i ddarlithwyr unigol sy'n dymuno datblygu adnodd / ymchwil unigol / prosiect cyfyng ei gwmpas. (Y dyfarniad uchaf sy'n bosib drwy'r Cynllun Grantiau Bach yw £2,500).

2. Law yn llaw â'r datblygiadau hyn, mae Pwyllgor Cydweithio Academaidd y Coleg wedi datblygu fframwaith penodol ar gyfer cefnogi modiwlau a gweithgareddau cydweithredol sy'n cael eu trefnu dan nawdd y Coleg e.e. cynadleddau myfyrwyr, cyrsiau sgiliau ac ati. Erbyn hyn noddir y gweithgareddau hyn drwy gyllideb ddynodedig ar gyfer darpariaeth gydweithredol.
3. Tra bod yr amrywiol ffynonellau ar gyfer cefnogi datblygiadau academaidd wedi helaethu, mae ychydig o wasgedd cyllidebol wedi dod i'r amlwg hefyd. Nid oes cynnydd wedi bod yng nghyllideb y Coleg (ac eithrio'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Staffio, yn unol ag adroddiad yr Athro Robin Williams), felly mae'r arian sydd ar gael ar gyfer datblygiadau strategol newydd yn gyfyng o gymharu â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, bydd y Coleg yn comisiynu nifer cyfyngedig o brosiectau cenedlaethol newydd yn 2014/15. Yn mhob achos, bydd y Coleg yn sicrhau bod y prosiectau a gyllidir yn strategol ac yn gydnaws â chynlluniau academaidd y Coleg.

### **Cronfeydd oddi fewn i'r Gronfa Datblygiadau Strategol**

4. Cyn manylu ar y broses gomisiynu ar gyfer y prosiectau hyn, mae'n werth nodi'r cronfeydd sy'n parhau o fewn cyllideb eang y 'Gronfa Datblygiadau Strategol':
  - i) Grantiau Bach (Grantiau o hyd at £2,500)

Mae un cylch o ddyfarniadau Grantiau Bach eisoes wedi eu dyfarnu yn 2014/15 a bydd cylch pellach o Grantiau Bach yn cael eu dyfarnu yn ystod tymor yr Haf 2015;
  - ii) Swyddogion Pwnc

Mae'r gyllideb ar gyfer swyddogion pwnc wedi ei dynodi oddi mewn i'r Gronfa Datblygiadau Strategol;
  - iii) Modiwlau Cydweithredol

Mae'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd wedi gofyn am wybodaeth ar gyfer modiwlau cydweithredol fydd yn cael eu darparu ym mlwyddyn academaidd 2015/16 i'w cyflwyno erbyn 27 Mawrth 2015. Dylid cyflwyno cyllideb, erbyn 27 Mawrth 2015, ar gyfer pob modiwl cydweithredol arfaethedig sy'n deisyfu

derbyn cefnogaeth ariannol gan y Coleg. Mae ffurflenni perthnasol eisoes wedi eu cylchredeg i Swyddogion Cangen a Swyddogion Pwnc y Coleg. Dylid anfon y cynigion at Rhian Davies, [Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk](mailto:Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk);

iv) Gweithgareddau Cydweithredol eraill e.e. cynadleddau myfyrwyr

Bydd y Coleg yn barod i ddynodi cyllideb resymol (fel arfer rhwng tua £1,000 a £2,500) i gefnogi gweithgareddau cydweithredol ar gyfer myfyrwyr mewn pwnc penodol (neu ar draws ystod o bynciau tebyg) yng Nghymru i'w cynnal ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Fel arfer ni fydd y Coleg yn cefnogi mwy nag un gynhadledd neu weithgaredd mewn pwnc unigol. Dylai unrhyw ddarlithydd / panel pwnc sy'n awyddus i drefnu gweithgaredd o'r fath gyflwyno disgrifiad a chyllideb ar gyfer y gweithgareddau cydweithredol arfaethedig erbyn 1 Mai 2015. Mae ffurflenni perthnasol eisoes wedi eu cylchredeg i Swyddogion Cangen a Swyddogion Pwnc y Coleg. Dylid anfon y cynigion at Rhian Davies, [Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk](mailto:Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk);

### **Prosiectau Cyfredol y Gronfa Datblygiadau Strategol**

5. Oni bai bod y prosiect wedi ei nodi yng nghymal 7, isod, bydd yr holl brosiectau cyfredol yn dod i ben yn unol â'r amserlen a'r gyllideb sydd wedi eu gosod. Os yw cydlynwyr prosiectau cyfredol eraill yn dymuno datgan diddordeb ar gyfer prosiect newydd (fel rhan o'r broses gomisiynu a ddisgrifir isod) dylid gwneud hynny drwy ymateb i'r cylchlythyr hwn. Os oes unrhyw amheuaeth o gwbl gan reolwyr prosiect am statws eu prosiect, dylid ceisio cyngor gan Brif Weithredwr y Coleg neu Uwch Reolwr Academaidd arall.
6. Bydd y Coleg yn ymateb i unrhyw ymholiadau o'r fath yn ysgrifenedig.
7. Er eglurdeb dyma'r prosiectau cyfredol lle nad oes angen cyflwyno ymateb i'r cylchlythyr. Yn achos rhai o'r prosiectau yma bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn darparu cyllideb tu hwnt i'r amserlen bresennol:
  - Geiriadur Termau Addysg Uwch
  - *Gwerddon*
  - Digido, e-gyhoeddi a chorpws electronig (DECHE)

- Tystysgrifau Addysg Uwch rhan amser yn y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas
- Cynllun Colegau Cymru
- MA mewn Astudiaethau Cyfieithu
- Tystysgrif Cymhwysedd i Athrawon
- Prosiectau addysg uwch / dilyniant mewn sefydliadau addysg bellach

### **Prosiectau Newydd o'r Gronfa Datblygiadau Strategol**

8. Fel y nodwyd eisoes mae'r Coleg wedi clustnodi swm penodol ar gyfer prosiectau strategol i'w comisiynu o'r newydd cyn diwedd blwyddyn academiaidd 2014/15. Gan mai swm cymharol fach sydd dan sylw mae'r Coleg yn awyddus i osgoi sefyllfa lle bydd cydweithwyr mewn prifysgolion yn gweithio'n ddyfal ar geisiadau prosiectau manwl ac yna fod mwyafrif y ceisiadau hyn yn cael eu gwrthod oherwydd cyfyngiadau ariannol. Gofynnir felly i'r sawl sy'n awyddus i ddatblygu prosiect dan nawdd y Gronfa Strategol i gyflwyno eu cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais fer sydd wedi'i hatodi. Dylid cyflwyno'r ffurflen i Rhian Davies [Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk](mailto:Rh.Davies@colegcymraeg.ac.uk) erbyn 27 Ebrill 2015.
9. Bydd Panel Grantiau'r Coleg yn ystyried y prosiectau arfaethedig ac yn gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â phob cais a gyflwynir. Gall y panel:
  - Argymell comisiynu'r prosiect
  - Argymell gwaith pellach cyn penderfynu a ddylid comisiynu'r prosiect neu beidio
  - Argymell na ddylid cefnogi'r cais.
10. Bydd y Panel yn rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:
  - ceisiadau a gyflwynir yn gydweithredol ar ran Panel Pwnc;
  - ceisiadau sy'n ymateb i flaenoriaethau sydd wedi'u nodi'n glir oddi mewn i gynlluniau academiaidd;
  - argymhellion sydd wedi eu cyflwyno yn sgil adolygiadau pynciol, lle bo hynny'n berthnasol;

- Prosiectau posibl sydd wedi eu gwyntyllu'n ffurfiol yn ystod cyfarfodydd cynllunio rhwng y prifysgolion a swyddogion y Coleg.
11. Nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall prifysgolion unigol eu cynnig ond dylid ystyried yn ofalus cyn cyflwyno mwy na dau gais o'r fath.
  12. Anogir sefydliadau i gyflwyno ceisiadau ar y cyd, hynny yw, gydag elfen gydweithredol llawn gan ddau neu fwy o sefydliadau.



## Ffurflen Gynnig Prosiect Strategol Newydd

**Teitl y Prosiect:** [Noder teitl y prosiect]

Rheolwr / Rheolwyr y prosiect (enw, e-bost, rhif ffôn)	
Sefydliad:	
Dyddiad cychwyn:	
Dyddiad gorffen:	
Cyfanswm Grant:	

1. Amlinelliad Cryno o'r Prosiect Arfaethedig (heb fod yn hwy na 500 gair)

2. Trafodaeth a fu ar y prosiect (e.e. mewn panel, cyfarfod cynllunio)

3. Perthnasedd y prosiect i gynlluniau academiaidd y Coleg

4. Amserlen a Chyllideb Arfaethedig y Prosiect. Dylid nodi hefyd os oes yna ffynonellau cyllid eraill.

<b>Amserlen</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Cost</b>
	Cyfanswm	

5. Allbynnau'r Prosiect (heb fod yn hwy na 250 gair)

Arwyddwyd gan y darpar reolwr prosiect:

Arwyddwyd gan y Sefydliad:

Dyddiad: